

Pecyn Dogfennau



Mark James LLM, DPA, DCA
Prif Weithredwr,
Chief Executive,
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
County Hall, Carmarthen. SA31 1JP

DYDD IAU, 3 IONAWR 2019

AT: HOLL AELODAU'R CYNGOR SIR

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD O'R CYNGOR SIR A GYNHELIR YN SIAMBR, - NEUADD Y SIR, CAERFYRDDIN. SA31 1JP. AM 10.00 AM, DYDD MERCHER, 9FED IONAWR, 2019 ER MWYN CYFLAWNIR MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA SYDD YNGHLWM

Mark James DYB

PRIF WEITHREDWR



AILGYLCHWCH OS GWELWCH YN DDA

Swyddog Democrataidd:	Kevin Thomas
Ffôn (Ilinell uniongyrchol):	01267 224027
E-bost:	kjthomas@sirgar.gov.uk
Cyf:	AD016-001



EICH CYNGOR arleinamdanî

www.sirgar.llyw.cymru

YOUR COUNCIL doitononline

www.carmarthenshire.gov.wales

A G E N D A

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.
3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD.
4. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR YR 12FED RHAGFYR 2018. 5 - 14
5. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW).
6. CWESTIYNAU GAN AELODAU:-
 - 6 .1 CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD BILL THOMAS I'R CYNGHORYDD GLYNOG DAVIES, AELOD Y BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG & PHLANT

“Os bydd rhywun yn yfed can o Coke bob dydd am fis, bydd yn bwytar hyn sy'n gyfwerth â llond bag o siwgr. Hefyd diodydd byrlymog yw'r ffynhonnell fwyaf o siwgr i blant rhwng 11 a 18 oed. Felly os ydych am fynd i'r afael â gordewdra ymhliith plant o ddifrif, mae'n dechrau gyda pop byrlymog.

Fel rhan o'r Fenter Ysgolion lach, mae'r ysgol yn fy ward i, Felin-foel, sef Ysgol y Felin, yn gofyn i unrhyw ddisgyblion sy'n dod â diodydd byrlymog i'r ysgol eu rhoi i staff yr ysgol a'u casglu wedyn ar ddiwedd y diwrnod ysgol.

A wnaiff yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol gefnogi'r ymgyrch Dim Diodydd Byrlymog ym mis Chwefror ac annog yr holl ysgolion yn Sir Gaerfyrddin i roi cynnig ar hyn am fis? Bydd hyn hefyd yn gyfle i hyrwyddo manteision yfed dŵr yn lle pop byrlymog”.
7. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU 15 - 24
8. CYNLLUN GOSTYNGIADAU'R DRETH GYNGOR, 2019/20 25 - 34
9. YSTRIED ARGYMHELLION Y BWRDD GWEITHREDOL O RAN Y MATERION CANLYNOL:-
 - 9 .1 STRATEGAETH DDIGARTREFEDD RANBARTHOL 35 - 56
 - 9 .2 ADRODDIAD RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDD DARBODAETH CANOL BLWYDDYN EBRILL 1AF 2018 I MEDI 30AIN 2018 57 - 72
10. DERBYN ADRODDIAD CYFARFOD Y BWRDD GWEITHREDOL A GYNHALIWYD AR Y DYDDIADAU CANLYNOL:-.

10 .1 3YDD RHAGFYR, 2018	73 - 78
10 .2 17EG RHAGFYR, 2018	79 - 84
11. COFNODION ER GWYBODAETH (AR GAEL AR Y WEFAN)	
11 .1 PWYLLGOR CRAFFU DIOGELU'R CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD - 16EG O DACHWEDD 2018	
11 .2 PWYLLGOR CRAFFU GOFAL CYMDEITHASOL A IECHYD-22AIN O DACHWEDD 2018	
11 .3 PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU - 23AIN O DACHWEDD 2018	
11 .4 PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A PHLANT - 26AIN O DACHWEDD 2018	
11 .5 PWYLLGOR CYNLLUNIO - 27AIN O DACHWEDD 2018	
11 .6 PWYLLGOR CRAFFU POLISI AC ADNODDAU - 5ED O RHAGFYR, 2018	
11 .7 PWYLLGOR TRWYDDEDU - 6ED O RAGFYR 2018	
11 .8 PWYLLGOR SAFONAU - 7FED RHAGFYR, 2018	

DS: Mae adroddiadau yn cael eu hargraffu mewn du a gwyn yn unig er mwyn arbed costau. Fodd bynnag mae pob adroddiad ar gael ar-lein fel y gall aelodau o'r Pwyllgor / Cyngor Sir a'r cyhoedd weld lluniau/graffiau mewn lliw.

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Y CYNGOR SIR

DYDD MERCHER, 12 RHAGFYR 2018

YN BRESENNOL: Y Cyngorydd J.M. Charles (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:

F. Akhtar	S.M. Allen	L.R. Bowen	K.V. Broom
D.M. Cundy	C.A. Davies	H.L. Davies	I.W. Davies
J.A. Davies	S.L. Davies	W.R.A. Davies	K. Davies
E. Dole	J.S. Edmunds	P.M. Edwards	D.C. Evans
H.A.L. Evans	L.D. Evans	R.E. Evans	W.T. Evans
S.J.G. Gilasbey	T.M. Higgins	J.K. Howell	P. Hughes-Griffiths
R. James	D.M. Jenkins	J.P. Jenkins	G.H. John
B.W. Jones	C. Jones	D. Jones	G.R. Jones
H.I. Jones	A. Lenny	K. Lloyd	K. Madge
A.S.J. McPherson	A.G. Morgan	E. Morgan	S. Najmi
D. Nicholas	A. Vaughan Owen	B.D.J. Phillips	J.S. Phillips
D. Price	B.A.L. Roberts	E.M.J.G. Schiavone	H.B. Shepardson
A.D.T. Speake	L.M. Stephens	B. Thomas	D. Thomas
E.G. Thomas	G. Thomas	G.B. Thomas	J. Tremlett
D.E. Williams	D.T. Williams	J.E. Williams	

Hefyd yn bresennol:

M. James, Y Prif Weithredwr
C. Moore, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol
G. Morgans, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant
Mrs R. Mullen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd
W. Walters, Cyfarwyddwr Adfywio a Pholisi
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
P.R. Thomas, Y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
D. Hockenhull, Rheolwr Marchnata a'r Cyfryngau
H. Morgan, Rheolwr Datblygu Economaidd
E. Jones, Pen-swyddog Trwyddedu
L. Morris, Uwch-swyddog y Wasg
L. Jenkins, Swyddog Gwasanaethau Democratiaidd
J. Laimann, Swyddog Cynorthwyol y Gwasanaethau Democratiaidd
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democratiaidd

Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin: 10.00 am - 11.50 am

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr C. Campbell, S. Curry, G. Davies, A. Davies, A.L. Fox, D. Harries, C. Harris, P. Hughes, A. James, J. James, T.J. Jones, M.J.A. Lewis, S. Matthews a J.G. Prosser.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Y Cyngorydd	Rhif y Cofnod	Y Math o Fuddiant
J. Jenkins	9.1 - Adolygiad o'r Polisi Hapchwarae	Mae'r Cyngorydd yn gweithio i fusnes betio.

Dyweddodd y Prif Weithredwr nad oedd gofyniad i aelodau sydd â theulu ac ati yn y proffesiwn addysgu ddatgan buddiant mewn perthynas â Chofnod 9 [Polisi Cyflogau Athrawon Enghreifftiol] o gyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 19 Tachwedd 2018, gan fod y cofnodion ond yn cael eu derbyn.

3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

- Mynegodd y Cadeirydd ddymuniadau da i'r Cyngorwyr John Prosser a John James a dynunodd wellhad buan iddynt yn dilyn llawdriniaethau yn ddiweddar;
- Cydymdeimlodd y Cadeirydd â theulu Paul James, swyddog yn Adain Bensiynau'r Cyngor, a fu farw yn ddiweddar;
- Mynegodd y Cadeirydd ei longyfarchiadau i'r canlynol:
 - Cai Thomas Phillips [Gorllewin Caerfyrddin a De Penfro], Marged Lois Campbell [Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr] a Megan Carys Davies [Llanelli] a oedd wedi cael eu hethol i Senedd leuenctid Cymru.
 - Mark Drakeford, sy'n dod o Gaerfyrddin, ar gael ei ethol yn arweinydd y Blaid Lafur yng Nghymru;
 - Clwb Ffermwyr Ifanc Sir Gaerfyrddin ar gyrraedd y trydydd safle yng Nghystadleuaeth Celf Tir Genedlaethol Taith Prydain OVO Energy a gynhaliwyd yn gynharach eleni;
 - Gwasanaeth Tân ac Achub Canolborth a Gorllewin Cymru ar ennill Achrediad Platinwm Buddsoddwyr mewn Pobl.
- Cyfeiriodd y Cadeirydd at grŵp o ddiffoddwyr Tân o'r Trallwng, Powys, ac ar draws canolborth a gorllewin Cymru, a oedd wedi ceisio cyrraedd brig Siart y Senglau gyda'u record "Do they know it's Christmas". Roedd y gân yn y 7fed safle ar hyn o bryd. Dynunodd y Cadeirydd bob llwyddiant i'r grŵp wrth godi arian ar gyfer Elusen y Diffoddwyr Tân ac Ymddiriedolaeth Elusennol Band Aid;
- Estynnwyd llonyfarchiadau i Tennessee Randall ar ddod yn Bencampwr Ewrop y World Association of Kickboxing Organisations yng nghategori 56kg i fenywod. Hi oedd yr ymladdwraig cyswllt llawn gyntaf i gynrychioli tîm Prydain Fawr ym Mhencampwriaethau Cic-focsio Ewrop ac roedd hi hefyd wedi ennill gwobr yr Ymladdwr Gorau mewn Cylch yn y Bencampwriaeth;
- Dywedodd y Cadeirydd iddo fod yn bresennol mewn nifer o ddigwyddiadau ers y cyfarfod diwethaf, gan gynnwys cynherddau, carnifalau, digwyddiadau Nadolig a digwyddiadau agoriadol. Ychwanegodd fod ymweld â chartrefi preswyl y Cyngor wedi bod yn bleser mawr, lle cafodd groeso cynnes iawn ac roedd yn gallu gweld safon uchel iawn y gofal a ddarperir ac ymrwymiad yr holl staff. Cyfeiriodd hefyd at y cymorth yr oedd wedi ei gael gan unigolion a sefydliadau wrth godi arian ar gyfer Alzheimers Cymru ac Ambiwlans Cymru. Dywedodd y byddai hefyd yn cymryd rhan yn Nhrochfa'r Tymor ar Wyl San Steffan a chroesawodd yr Aelodau i'w noddi;
- Ar ran y Cyngorydd Mair Stephens, atgoffwyd yr Aelodau gan y Cadeirydd

- i gefnogi'r Apêl Teganau Flynyddol, drwy roi arian o bosibl, ond roedd angen penodol am deganau ar gyfer bechgyn;
- Ar wahoddiad y Cadeirydd, dywedodd y Cyngorydd Emlyn Dole fod ei 'Ddiwrnod Golff yr Arweinydd' ar 6 Hydref 2018 wedi codi £2826.50 ar gyfer Uned Gofal Canser y Fron yn Ysbyty'r Tywysog Philip, Llanelli. Diolchodd i aelodau ei dîm, i Glwb Golff Ashburnham ym Mhen-bre ac i Nigel Owens am gefnogi'r digwyddiad;
 - Ar ôl clywed diweddariad y Prif Weithredwr ynghylch datblygiadau diweddgar o ran Pentref Llesiant a Gwyddor Bywyd Llanelli yng nghyfarfod y Bwrdd Gweithredol ar 3 Rhagfyr 2018, dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi gofyn i'r Prif Weithredwr roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor hefyd. Dyma ymateb y Prif Weithredwr:

"Diolch i chi Gadeirydd. Fel y dywedoch chi, roeddech yn bresennol yng nghyfarfod y Bwrdd Gweithredol a rhoddais ddatganiad sefyllfa, neu ddiweddariad, ar lafar i Aelodau'r Bwrdd Gweithredol. Roedd Aelodau eraill; credaf fod y Cyngorydd Cundy yn bresennol wrth i mi roi'r diweddariad hwn. Yn syth ar ôl y cyfarfod, daethoch mewn a gofynnnoch a fyddwn yn rhoi diweddariad tebyg i'r Cyngor, felly fe wnaf hynny'n awr ar eich cais chi.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin, Prifysgol Abertawe, Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd dros y tair blynedd diwethaf i ddatblygu Pentref Llesiant a Gwyddor Bywyd yn Llanelli. Rhoddwyd y cysyniad yn wreiddiol i'r Cyngor gan Brifysgol Abertawe drwy gonsortiw ARCH, sef partneriaeth o dan Gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, sy'n ystyried gwahanol ffyrdd o ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol. Wedyn sefydlwyd bwrdd sector cyhoeddus gyda'r holl sefydliadau uchod er mwyn datblygu'r prosiect. Yn ogystal, cafodd y prosiect ei gynnwys fel un o 11 prosiect y Fargen Ddinesig yn dilyn hynny.

Ychwanegodd Prifysgol Abertawe gwmni'r sector preifat at y bartneriaeth fel partner datblygu posibl. Fodd bynnag, ar ôl cael ei gynnwys yn rhaglen y Fargen Ddinesig, penderfynodd y Cyngor Sir, ar ôl cael cyngor cyfreithiol, gynnal ymarfer caffael llawn a oedd yn cydymffurfio â gofynion yr UE, a gymerodd tua 15 mis i'w gwblhau.

Yn sgil yr ymarfer caffael hwennw, daeth consortiw rhwng Prifysgol Abertawe a Sterling Health Security Holdings Ltd. yn bartneriaid cydweithio o dan Gytundeb Cydweithio. Nid yw'r Cytundeb hwn yn gosod unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol ar y Cyngor Sir, heblaw gweithio tuag at Gytundeb Datblygu sy'n nodi sut y bydd y Pentref yn cael ei ddarparu. Nid yw'r Cytundeb Datblygu hwennw wedi'i gwblhau. Felly nid oes ymrwymiad na rhwymedigaeth ar y Cyngor Sir ar hyn o bryd. Nid oes unrhyw gyllid wedi'i ymrwymo, nid oes unrhyw daliadau wedi'u gwneud, heblaw gwaith paratoi i archwilio'r safle a chyngor cyfreithiol allanol arbenigol i'r Cyngor Sir.

Ar ôl cynnal yr ymarfer caffael a llofnodi'r Cytundeb Cydweithio, a gafodd ei lofnodi a'i selio gan Brifysgol Abertawe, gennym ni a chan Sterling Health, cafodd y Cyngor ragor o gyngor cyfreithiol, a gafodd ei adrodd wrth y Bwrdd Gweithredol, ynghylch y strwythur priodol ar gyfer darparu'r Pentref yn ddiogel ac amddiffyn arian cyhoeddus. Cafodd y cyngor hwennw ei rannu â Phrifysgol Abertawe a Sterling Health Security Holdings. Argymhellwyd na ddylai'r Cyngor Sir ymuno ag unrhyw gwmni presennol na pherchen ar unrhyw ran ohono, gan ei fod yn bosibl y bydd rhwymedigaethau'r cwmni yn berthnasol i'r Cyngor yn anfwriadol. Y cyngor oedd y dylai'r Cyngor Sir sefydlu cwmni diben arbennig newydd sbon sy'n gyfyngedig trwy gyfranddaliadau. Penderfynodd y Cyngor Sir mai hon oedd y

ffordd gyfreithiol fwyaf diogel o symud ymlaen a rhoddodd wybod i'r partneriaid am hynny.

Diben y Cytundeb Cydweithio oedd cytuno ar sut y bydd yr elfennau penodol yn cael eu cyflawni. Fodd bynnag, fel y dywedais, nid oes unrhyw gytundeb o'r fath wedi cael ei wneud eto.

Er bod gwaith wedi cael ei wneud i sefydlu'r cwmni diben arbennig newydd, nid yw hwn wedi'i sefydlu eto. Nid oes cyfranddaliadau wedi'u rhoi, nid oes cyfarwyddwyr wedi'u penodi, nid oes cwmni wedi'i gofrestru. Yn ei gyfarfod ar 3 Rhagfyr, bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried y cynllun busnes pum achos llawn, sydd yn unol â model y trysorlys - mae'n rhaid i ni gydymffurfio â hwn fel rhan o'r Fargen Ddinesig - a chytunwyd mewn egwyddor ei fod yn gadarn ac yn barod i'w gyflwyno i'r ddwy lywodraeth. Roedd y Cyd-bwyllgor a'r Bwrdd Strategaeth Economaidd, sy'n rhan o'r Fargen Ddinesig, hefyd wedi cymeradwyo'r model busnes pum achos llawn. Fodd bynnag roedd y Bwrdd Gweithredol yn ymwybodol o ddigwyddiadau ac adroddiadau diweddar. Felly roedd y Bwrdd o'r farn bod angen cael rhagor o sicrwydd gan Swyddogion, gan gynnwys cyngor cyfreithiol allanol arbenigol, bod y broses briodol wedi cael ei dilyn yn gywir a bod arian cyhoeddus yn cael ei amddiffyn yn llawn. Mae'r adolygiad cyfreithiol allanol hwnnw wedi'i gwblhau a bydd yn cael ei adrodd yn ôl i'r Bwrdd Gweithredol.

Clywodd y Bwrdd Gweithredol mai bwriad y Cytundeb Cydweithio â Phrifysgol Abertawe a Sterling Health Security Holdings oedd ceisio paratoi Cytundeb Datblygu er mwyn bwrw ati â'r cynllun. Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd nad oedd y Cytundeb Datblygu wedi'i gwblhau. Felly nid oedd ymrwymiad neu rwymedigaeth gyfreithiol ar y Cyngor eto. Gofynnodd y Bwrdd Gweithredol a oedd modd dod o hyd i ffordd arall o ddarparu'r prosiect hanfodol hwn i Lanelli a'r Sir. Roedd y Swyddogion o'r farn bod hyn yn hollol ymarferol.

Mae'r prosiect - i atgoffa'r Aelodau, fel y gwnes i yng nghyfarfod y Bwrdd Gweithredol - yn cynnwys tair elfen gyhoeddus graidd: Sefydliad Gwyddor Bywyd ar gyfer Prifysgol Abertawe; cyfleusterau iechyd newydd ar gyfer Bwrdd Iechyd Hywel Dda, a chanolfan hamdden newydd ar gyfer y Cyngor Sir, ynghyd â chyfleusterau addysgu a chyfleusterau eraill sy'n cynnwys Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Roedd y Swyddogion o'r farn y byddai'r Cyngor Sir yn gallu adeiladu'r rhain heb unrhyw bartneriaid datblygu. Mae'r cyllid ar gael drwy'r Fargen Ddinesig a'r Cyngor Sir i wneud hyn. Ar ôl eu trafodaeth â buddsoddwyr sefydliadol megis HSBC, Lloyds, Prudential ac eraill yr ydym wedi cael trafodaethau â hwy, a'r achos busnes ariannol annibynnol a gomisiynwyd gan y Cyngor, roedd y Swyddogion yn hyderus y byddai modd i'r Cyngor Sir gyflawni'r elfennau hanfodol eraill megis cartref gofal, cartref nrysio, gwesty, swyddfeydd, llety byw â chymorth, drwy ddefnyddio'r cyllid preifat a gadarnhawyd gan y Cyngor, os byddai angen.

Gofynnodd y Bwrdd Gweithredol i'r Swyddogion adrodd yn ôl ar frys ynghylch model cyflawni arall i sicrhau bod modd cwblhau'r buddsoddiad hynod bwysig hwn y mae angen mawr amdano yn Llanelli.

Mae'r Cyngor Sir bellach wedi terfynu'r Cytundeb Cydweithio â'r consortiwm, sef Prifysgol Abertawe a Sterling Health Security Holdings Ltd oherwydd ein bod o'r farn, yn sgil digwyddiadau diweddar ac er mwyn amddiffyn y Cyngor ac anrhyydedd y Pentref Llesiant a Gwyddor Bywyd, mai dyma'r ffordd fwyaf synhwyrol a chyfreithiol o symud ymlaen er mwyn amddiffyn y prosiect hwnnw. Rydym wedi gwneud hynny ar ôl cael y cymorth cyfreithiol allanol hwnnw. Bydd y Swyddogion bellach yn parhau i weithio gyda swyddogion eraill o Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Abertawe i gyflwyno model cyflawni arall a fydd, yn y bôn, yn sicrhau y bydd y Cyngor ei hun yn hwyluso'r buddsoddiad preifat sydd ei angen yn uniongyrchol. Mae fy nghydweithiwr wedi

cysylltu â llawer o gwmnïau sefydliadol y Fargen Ddinesig ac mae'n cysylltu â'r arbenigwr allanol sy'n darparu'r cynllun busnes sefydliadol hwnnw, yn hytrach na thrwy ddefnyddio cwmni Cyd-fenter.

Yn ogystal, cefais gyfarwyddyd rai wythnosau yn ôl, pan glywom fod rhywbeth yn digwydd ym Mhrifysgol Abertawe, i gysylltu ar unwaith â Swyddfa Archwilio Cymru er mwyn iddynt fod yn llwyr ymwybodol o'n sefyllfa ar hyn o bryd a chael cyfle i ddod mewn ac adolygu'r prosiect o'u safbwyt nhw. Mae fy nghydweithiwr wedi gwneud hynny. Mewn gwirionedd, gwnaeth Chris [Moore - Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol] hynny'r wythnos ddiwethaf. Ond hoffwn bwysleisio hyn - ac rwy'n darllen e-bost - roedd Swyddfa Archwilio Cymru yn awyddus atgyfnerthu eu bod yn croesawu ein gwahoddiad i adolygu'r prosiect ond roeddent am bwysleisio nad oherwydd bod ganddynt bryderon ynghylch y prosiect y maent yn cynnal yr adolygiad. Maent yn cynnal yr adolygiad mewn ymateb uniongyrchol i'n cais.

Roedd y darn diwethaf yn ddiweddarriad na rois i'r Bwrdd Gweithredol oherwydd megis dechrau cael cyfarfodydd gyda Swyddfa Archwilio Cymru oeddem ar y pryd."

4. CYMERADWYO A LLOFNODI COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR OEDD WEDI EI GYNNAL AR 14 TACHWEDD 2018, GAN EU BOD YN GYWIR

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL Iofnodi cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd 2018 gan eu bod yn gywir.

5. CYFLWYNIAD INSIGHT

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor bod nifer o ddisgyblion o ysgolion Sir Gaerfyrddin wedi cymryd rhan mewn digwyddiad yn ddiweddar a gynhaliwyd yn Theatr y Ffwrnes, Llanelli, a roddodd gipolwg i'r disgyblion ar y penderfyniadau anodd y mae awdurdod lleol yn eu hwynebu o ran y broses o bennu cyllideb. Roedd y digwyddiad, a gynhelir yn flynyddol, wedi rhoi cyfle i'r disgyblion ystyried gwahanol gynigion cyllideb a gwneud argymhellion o ran rôl y Bwrdd Gweithredol.

Cyflwynodd yr Arweinydd ddisgyblion o bob un o'r ysgolion canlynol, a amlinelloedd y cyflwyniadau yr oeddent wedi'u gwneud yn ystod y digwyddiad uchod:

Maes y Gwendaeth
Dyffryn Amman
Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth
Bro Dinefwr
Bro Myrddin

Wedyn llongyfarchwyd y disgyblion ar eu cyflwyniadau a diolchwyd iddynt am ddod.

6. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Dyweddodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

7. CWESTIYNAU GAN AELODAU:-

7.1. CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD ROB JAMES I'R CYNGHORYDD EMLYN DOLE, ARWEINYDD Y CYNGOR:

"Yn 2016, dywedodd yr Awdurdod hwn mewn datganiad i'r wasg: "Mae'r cytundeb cydweithio sydd wedi deillio o'r broses gaffael rhwng Cyngor Sir Caerfyrddin, Prifysgol Abertawe a Sterling Health Security Holdings, o fewn consortiwm o bartneriaid gan gynnwys Siemens, Fujitsu, Pfizer, Faithful & Gould, David Morley Architects a Medparc." A allai Arweinydd y Cyngor ddatgan a oes unrhyw bartneriaid eraill yn y consortiwm, ar wahân i'r rhai a nodwyd uchod?"

Ymateb gan y Cynghorydd Emlyn Dole, Arweinydd y Cyngor:-

"Diolch i chi am y cwestiwn. Ni ddechreuodd y broses gaffael i gael partner datblygu ar gyfer Pentref Llesiant a Gwyddor Bywyd tan 2017. Felly ni chyhoeddwyd datganiad i'r wasg yn 2016 a oedd yn nodi cytundeb cydweithio canlyniadol."

Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Rob James:

"Yn y digwyddiad lansio busnes ar gyfer y Fargen Ddinesig yr wythnos ddiwethaf, roeddech yn gwadu y cytunwyd eisoes mai Vinci, y cwmni adeiladu mawr o Ffrainc, yw'r contractwr ar gyfer y prosiect hwn. Mae'r gymuned fusnes leol wedi bod yn amyneddgar iawn gennych ond erbyn hyn maent yn pryderu bod hyn yn dechrau edrych fel twyll. Felly, yn y cytundeb cydweithio a lofnodwyd, a oedd contractwr adeiladu wedi'i nodi yn y ddogfen honno ac ai Vinci Plc oedd hwnnw?

Ymateb gan y Cynghorydd Emlyn Dole, Arweinydd y Cyngor:

"Rwy'n cael anhawster deall pam nad yw fy nghydweithiwr yn deall yr ateb. Unwaith eto, yr ateb yw nad oedd contractwr wedi'i nodi. Nid oes neb wedi cael ei benodi, fel y mae wedi cael ei esbonio'r wythnos ddiwethaf ac eto fore heddiw. Roedd y cytundeb cydweithio ar waith ac fel y dywedwyd yn glir yn y datganiad sefyllfa gan y Prif Weithredwr fore heddiw, mae hwnnw wedi cael ei ddweud eto a hoffwn ychwanegu mai'r ateb yw nad oedd. Ac fel y dywedais yn y cyfarfod yr wythnos ddiwethaf, nad oedd neb. Roedd y broses wedi'i hamlinellu'n glir ac mae'n sicr mai honno yw'r broses. Nid oes neb wedi'i benodi ac nid oes ymrwymiad wedi'i wneud. Dechreuodd y broses gaffael drwy gyhoeddi Hysbysiad Gwybodaeth Ymlaen Llaw (PIN) ar 18 Mawrth 2017 - dyma fy mhwynt cyntaf. Diben hwnnw oedd rhoi gwybod i'r farchnad am ein bwriad i denu a chynnal ymarfer ymgysylltu â'r farchnad. Wedyn roedd proses o gynnwl trafodaethau. Eglurais hyn y mis diwethaf, a ddaeth i ben drwy lofnodi'r cytundeb cydweithio yr ydym wedi clywed amdano rhwng Cyngor Sir Caerfyrddin, Prifysgol Abertawe a Sterling Health Security Holdings. Trwy gydol y broses honno cafodd nifer o gwmniau rhyngwladol a chenedlaethol eu cynnwys yn y trafodaethau, ynghyd â sefydliadau ariannol y Fargen Ddinesig. Roedd y rhain yn cynnwys pob un a nodwyd yn eich cwestiwn blaenorol."

7.2. CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD ROB JAMES I'R CYNGHORYDD EMLYN DOLE, ARWEINYDD Y CYNGOR:

"Mae Arweinydd y Cyngor wedi datgan yn flaenorol nad yw Cyfarwyddwyr Cwmni'r Cyd-fenter wedi cael eu pennu eto ac nad yw'r strwythur corfforaethol wedi cael ei ddatblygu gyda'r partneriaid eto i gyflawni'r pentref. A yw Arweinydd y Cyngor bellach mewn sefyllfa i ddweud wrth y Cyngor pwy yw'r Cyfarwyddwyr ac a yw'r strwythur corfforaethol hwnnw wedi cael ei gwblhau?"

Ymateb gan y Cynghorydd Emlyn Dole, Arweinydd y Cyngor:

"Nid ydym yn gallu egluro'r strwythur corfforaethol na dweud pwy yw'r cyfarwyddwyr eto, i ateb eich cwestiwn. Rydym yn parhau i gael cymorth cyfreithiol penodol er mwyn sicrhau ein bod yn creu strwythur a fydd yn ein galluogi i ddatblygu'r pentref yn y ffordd orau a rhoi'r nifer uchaf bosibl o gyfleoedd i'r Awdurdod, ac yn bwysig iawn, rhoi'r manteision gorau i breswylwyr y Sir. Bydd y manteision hyn yn cynnwys y swyddi da a chadarn yr ydym wedi siarad amdanynt a'u hamlinellu. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys prentisiaethau, hyfforddiant i nyrsys, meddygon, therapyddion, canolfan hamdden newydd, cyfleusterau i'r henoed a chanolfan iechyd gymunedol yn Llanelli, gyda chymorth ein partneriaid Bwrdd Iechyd. Mae'r Bwrdd Gweithredol wedi cytuno bod awdurdod yn cael ei ddirprwyo i swyddogion er mwyn creu'r strwythur corfforaethol hwnnw a byddaf yn sicrhau ei bod yn cael ei chyflawni. Bydd hyn hefyd yn sicrhau bod yr holl gyfathrebu angenrheidiol yn digwydd â'r aelodau wrth i ni gyflawni'r broses honno a symud ymlaen."

7.3. CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD ROB JAMES I'R CYNGHORYDD EMLYN DOLE, ARWEINYDD Y CYNGOR:

"Rhagwelwyd y byddai cam cyntaf y Pentref Llesiant a Gwyddor Bywyd yn agor yn gynnar yn 2021. A yw Arweinydd y Cyngor yn credu eich bod yn unol â'r targed o ran cyflawni'r nod hwn ar hyn o bryd?"

Ymateb gan y Cynghorydd Emlyn Dole, Arweinydd y Cyngor:

"Ydw, ein nod o hyd yw agor cam cyntaf y pentref ym mis Medi 2021. Mae'r cam cyntaf yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd gan dîm o 19 gwahanol ddisgyblaeth o Arup a bydd yn cynnwys y ganolfan lesiant a fydd yn cynnwys y cyfleusterau chwaraeon, hamdden a gweithgareddau dŵr. Bydd y ganolfan iechyd gymunedol yn cynnwys yr elfennau ymchwil, datblygu busnes, addysg, sgiliau a hyfforddiant a'r ddarpariaeth glinigol ynghyd â'r llecyn agored cyhoeddus."

Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Rob James:

"Pan lofnodwyd y cytundeb cydweithio, roedd chwe pherson yn y llun. Mae dau ohonynt wedi cael eu hatal, mae un wedi ymddiswyddo a thorrwyd cysylltiad ag un arall. Yr unig un sydd ar ôl yw chi, Arweinydd y Cyngor hwn. Rydych wedi bod yn gweithio ar hyn ers tair blynedd felly onid ydych yn credu, o ystyried popeth sydd wedi digwydd yn yr wythnosau diwethaf, ei bod hi'n amser i chi ailystyried eich swydd fel Arweinydd y Cyngor."

Ymateb gan y Cynghorydd Emlyn Dole, Arweinydd y Cyngor:

"Rwyf wir yn cael trafferth deall pam mae Arweinydd y Grŵp Llafur yn beirniadu prosiect mwyaf y Fargen Ddinesig ar gyfer Dinas-ranbarth Bae Abertawe yn gyson. Prosiect trawsnewidiol ydyw, nid ar gyfer ardal Llanelli yn unig, ond ar gyfer y rhanbarth cyfan. Bydd yn darparu canolfan hamdden newydd sbon o'r radd flaenaf ar gyfer pobl Llanelli. Dyma fydd lleoliad y Ganolfan Lesiant, y Sefydliad Gwyddor Bywyd, llecynnau agored cyhoeddus, llety byw â chymorth, cartref gofal a chyfleuster meithrin busnesau. Llwybr o'r maes clinigol i'r gymuned. Canolfan gymunedol ar gyfer iechyd. Felly pam na all gefnogi'r prosiect a'r bobl y cafodd ei ethol i'w cynrychioli? Hoffwn ateb fy nghwestiwn fy hun, oherwydd mai clymbiaid dan arweiniad Plaid sy'n darparu ar gyfer pobl Llanelli. Yn y cyfamser, ein bwriad yw dechrau adeiladu tai Cyngor yn Llanelli am y tro cyntaf ers 40 mlynedd. Beth maent yn ei wneud? Gwrthwynebu. Rydym yn cyhoeddi y bydd ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn cael ei hadeiladu yn Llanelli. Beth mae'n ei wneud? Gwrthwynebu. Rydym yn gwario £3 miliwn neu ragor ar brynu eiddo gwag yng nghanol tref Llanelli. Rydym yn lansio Stryd Cyfleoedd o dan y Prif Gynllun Rhanbarthol ar gyfer canol y dref. Beth maent yn ei wneud? Gwrthwynebu. Rydym yn gweithredu rhaglen ymgysylltu cymunedol ar gyfer ward Ty-isa i ystyried amddfadedd yng nghyd-destun y ward cyfan er mwyn mynd i'r afael â'r prif broblemau y mae'r gymuned honno yn Llanelli yn eu hwynebu, mewn ffordd gyfannol am y tro cyntaf. Beth maent yn ei wneud? Ceisio cipio'r broses. Y gwir yw bod y cyfan yn pwysleisio eu rhwystredigaeth. Pan ddechreuais fel Arweinydd bedair blynedd yn ôl, un o'r pethau cyntaf y gwnes i oedd ymweld â'r Hwb, a oedd wedi'i lleoli yng nghanol tref Llanelli dros dro, a mynnais fod yr Hwb yn Llanelli yn cael ei ddatblygu ymhellach yn y lleoliad hwnnw yng nghanol y dref, gan sicrhau o leiaf 4000 mwy o ymwelwyr bob mis, ac estyn yr un egwyddor i'n dwy brif dref arall yn Rhydaman ac yma yng Nghaerfyddin. Gwnaethom agor yr Hwb olaf hwnnw yn Rhydaman ar fore dydd Llun. Beth wnaeth ef? Gwrthwynebu. Y gwir yw ei fod yn pwysleisio eu rhwystredigaeth. Cawsoch chi eich cyfle i newid Llanelli. Gwnaethoch chi ddim byd ond siarad amdano. Mae'r glymbiaid hon dan arweiniad Plaid yn gwneud hynny ac rydych chi'n beirniadu ac yn rhwystro'r broses yn hytrach na'i chefnogi i wneud gwahaniaeth ar gyfer pobl Llanelli. Mae eich sylwadau fore heddiw yn gywilyddus. Mewn gwirionedd, yn fwy na hynny, dim llai nag esgeuluso'ch dyletswydd yw hyn."

8. RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORYDD LOUVAIN ROBERTS

Dyweddodd y Cadeirydd fod y Rhybudd o Gynnig wedi'i dynnu'n ôl.

9. YSTRIED ARGYMHELLION Y BWRDD GWEITHREDOL O RAN Y MATERION CANLYNOL:-

9.1. ADOLYGIAD O'R POLISI HAPCHWARAE

(NODER: Roedd y Cynghorydd J. Jenkins wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach a gadawodd y Siamb.)

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor fod y Bwrdd Gweithredol, yn ei gyfarfod ar 19 Tachwedd 2018 (gweler cofnod 15), wedi ystyried adroddiad ynghylch yr adolygiad o'r Polisi Hapchwarae, a oedd yn cynnwys Dogfen Ymgyngorol 2018 a'r Polisi Hapchwarae diwygiedig - Deddf Hapchwarae 2005.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr argymhelliaid canlynol gan y Bwrdd Gweithredol:

"bod y Polisi Hapchwarae diwygiedig yn cael ei gymeradwyo."

9.2. ADOLYGIAD O'R POLISI TRWYDDEDU

Rhoddydwyd gwybod i'r Cyngor fod y Bwrdd Gweithredol, yn ei gyfarfod ar 19 Tachwedd 2018 (gweler cofnod 16), wedi ystyried adroddiad ynghylch yr adolygiad o Bolisi Trwyddedu'r Awdurdod a oedd yn cynnwys yr Adroddiad Ymgynghori ynghylch y Polisi Trwyddedu a Datganiad diwygiedig y Polisi Trwyddedu a oedd yn adlewyrchu canlyniadau'r broses o ymgynghori ac adolygu.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr argymhelliaid canlynol gan y Bwrdd Gweithredol:-

"cymeradwyo'r Polisi Trwyddedu diwygiedig."

10. DERBYN ADRODDIAD CYFARFOD Y BWRDD GWEITHREDOL A GYNHALIWYD AR 19EG TACHWEDD, 2018

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 19 Tachwedd 2018.

11. AELODAETH PWYLLGORAU

Yn unol â Rheol Gweithdrefn Gorfforaethol 2(2)(n) ac ar ôl derbyn enwebiadau gan y grwpiau gwleidyddol perthnasol:

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL

11.1 nodi y byddai'r Cynghorydd Mansel Charles yn cymryd lle'r Cynghorydd Andrew James fel un o gynrychiolwyr Grŵp Plaid Cymru ar y Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd;

11.2 nodi y byddai'r Cynghorydd Gary Jones yn cymryd lle'r Cynghorydd Andre McPherson fel un o gynrychiolwyr Grŵp Llafur ar y Pwyllgor Craffu - Iechyd a Gofal Cymdeithasol;

11.3 penodi'r Cynghorydd Rob James i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau yn lle'r Cynghorydd Andre McPherson.

CADEIRYDD

DYDDIAD

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Y CYNGOR SIR 09/01/2019

ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU

**Yr argymhellion / penderfyniadau allweddol sydd eu hangen:
Derbyn adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Safonau**

Y rhesymau:

Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Cyngor Llawn bob blwyddyn ynghylch ei weithgareddau yn ystod blwyddyn flaenorol y Cyngor.

Argymhellion / sylwadau'r Pwyllgor Craffu:

Amherthnasol

Angen i'r Bwrdd Gweithredol wneud penderfyniad	NAC OES
--	---------

Angen i'r Cyngor wneud penderfyniad	OES
-------------------------------------	-----

**YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL SY'N GYFRIFOL AM Y PORTFFOLIO:- Y
Cyng. E. Dole (Arweinydd)**

Y Gyfarwyddiaeth		
------------------	--	--

Y Prif Weithredwr		
-------------------	--	--

Enw Pennaeth y Gwasanaeth:	Swyddi:	
----------------------------	---------	--

Linda Rees-Jones	Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith	Rhif ffôn
------------------	--	-----------

Awdur yr Adroddiad:	Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol	01267 224018
---------------------	---------------------------------------	--------------

Robert Edgecombe		Cyfeiriad e-bost: RJEdgeco@sirgar.gov.uk.
------------------	--	--



EICH CYNGOR arleinamdanî
www.sirgar.llyw.cymru

YOUR COUNCIL doitononline
www.carmarthenshire.gov.wales

**EXECUTIVE SUMMARY
COUNTY COUNCIL
09/01/19**

ANNUAL REPORT OF STANDARDS COMMITTEE

The Standards Committee is required to report annually to full council regarding its activities during the previous municipal year.

The attached report covers the period 1st April 2017 to 31st March 2018

Full Council is asked to receive and note the report.

DETAILED REPORT ATTACHED ?	YES
-----------------------------------	------------



EICH CYNGOR arleinamdanî
www.sirgar.llyw.cymru

YOUR COUNCIL doitononline
www.carmarthenshire.gov.wales

IMPLICATIONS

I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report :

Signed: L Rees-Jones

Head of Administration and Law

Policy, Crime & Disorder and Equalities NONE	Legal NONE	Finance NONE	ICT NONE	Risk Management Issues NONE	Staffing Implications NONE	Physical Assets NONE
--	----------------------	------------------------	--------------------	---------------------------------------	--------------------------------------	--------------------------------

CONSULTATIONS

I confirm that the appropriate consultations have taken in place and the outcomes are as detailed below

Signed: L Rees-Jones

Head of Administration and Law

(Please specify the outcomes of consultations undertaken where they arise against the following headings)

1. Scrutiny Committee
Not applicable
2. Local Member(s)
Not applicable
3. Community / Town Council
Not applicable
4. Relevant Partners
Not applicable
5. Staff Side Representatives and other Organisations
Not applicable

Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information

List of Background Papers used in the preparation of this report:

THESE ARE DETAILED BELOW

Title of Document	File Ref No.	Locations that the papers are available for public inspection
Legal file	DPSC-165	Legal Services, County Hall

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

STANDARDS COMMITTEE

ANNUAL REPORT 2017/2018

Introduction

1. Period Covered by the Report
2. Terms of Reference
3. Code of Conduct Complaints
4. Applications for Dispensation
5. Code of Conduct Training
6. Whistleblowing Policy
7. Code Compliance by Town and Community Councils
8. Other Activities
9. Conclusion

INTRODUCTION

The law requires each and every County and County Borough Council in Wales to establish and maintain a Standards Committee. Such committees are responsible for overseeing standards of conduct for elected members of both the principal council and the constituent community and town councils within the principal council's area.

The Committee receives and determines applications for dispensation from elected members in relation to the Code of Conduct and adjudicates upon code complaints referred to the Council by the Public Services Ombudsman for Wales. However it should be noted that only rarely has the Committee been requested to undertake this latter function.

The Committee also receives reports in relation to the operation of the Council's whistleblowing policy.

1. PERIOD COVERED BY THE REPORT

This report covers the activities of the Standards Committee during the period 1st April 2017 to 31st March 2018

2. TERMS OF REFERENCE

The role and functions of the committee as set out in the constitution of the Council are:

- To promote and maintain high standards of conduct by councillors and co-opted members
- To assist councillors and co-opted members to observe the Members' Code of conduct
- To advise the Council on the adoption or revision of the Members' Code of Conduct
- To monitor operation of the Members' Code of Conduct
- To advise, or arrange training for councillors and co-opted members on matters relating to the Members' Code of Conduct
- To grant dispensations to councillors and co-opted members where they have a personal and prejudicial interest under the Members' Code of Conduct
- To deal with reports from the Adjudication Panel for Wales and reports from the Monitoring Officer or the Public Services Ombudsman for Wales
- The exercise of the above functions in relation to Town and Community Councils in the county
- To receive annual reports on the operation of the Council's Whistleblowing Policy

3. CODE OF CONDUCT COMPLAINTS

The Committee was not required to adjudicate upon any Code of Conduct complaints during the period of this report.

Formal complaints about councillors who are suspected of breaching the Code of Conduct are referred directly to the Public Service Ombudsman for Wales without involving the Standards Committee. Most complaints are resolved by the Ombudsman but occasionally the Ombudsman may require the Committee to investigate and adjudicate on a complaint.

In 2017-18, however, the Ombudsman did not refer any complaints to the Committee, nor were any matters referred to the Adjudication Panel for Wales in respect of Councillors from Carmarthenshire.

The Committee is kept informed by the Monitoring Officer about the number of complaints relating to Carmarthenshire councillors notified to her by the Ombudsman.

During the period covered by this report a total of 23 code complaints were made in respect of councillors and co-opted members of councils in Carmarthenshire. Unfortunately this represents a significant increase from the 9 complaints made during the previous year. Of these 23 complaints, 6 related to County Councillors and 17 to Town and Community Councillors (14 of which related to just 1 Town Council).

It should be noted that in all of these cases the Ombudsman either closed his investigation after initial consideration or found no evidence of a breach of the Code.

Therefore despite the increase in the number of code complaints the committee is satisfied that the vast majority of councillors do comply with the code and that where allegations of breach are made they are either unfounded or are not considered by the Ombudsman to be sufficiently serious to warrant enforcement action.

4. APPLICATIONS FOR DISPENSATION

The Committee considered 31 applications for dispensation from County and Community and Town Councillors during the year, all of which were either granted or partly granted.

The grounds upon which the Committee may grant a dispensation are set out in the Standards Committees (Grant of Dispensations)(Wales) Regulations 2001.

The Committee continues to approach each application with a presumption in favour of granting a dispensation wherever practicable, particularly in relation to granting a dispensation to speak. The Committee may also delegate authority to the Monitoring Officer

to grant similar dispensations in relation to that business. However no such delegation was given during the period of this report.

Details of the applications that have been dealt with can be viewed as part of the minutes of the meetings of the Committee which are accessible on Carmarthenshire County Council's website www.carmarthenshire.gov.uk.

A comparison between the numbers of dispensation applications received since 2009 shows the following:

YEAR	TOTAL	CCC	T/CC	GRANTED*	REFUSED	OTHER
2013/14	27	7	20	26	1	N/A
2014/15	17	1	16	17	0	N/A
2015/16	65	5	60	62	3	N/A
2016/17	21	4	17	18	3	N/A
2017/18	31	7	24	31	0	N/A

* either granted or partly granted

5. CODE OF CONDUCT TRAINING

Following a review of the code of conduct training provided to Town and Community Councillors in previous years, a decision was again taken to invite each Town and Community Council to send representatives to two training sessions that were held on separate evenings during June 2017. The sessions were well attended, with a total of 92 delegates present representing a large number of different Councils.

6. WHISTLEBLOWING POLICY

The Committee has oversight of the authority's Whistleblowing Policy. The process is regulated by the Public Interest Disclosure Act 1998, which protects against dismissal and other detriment for workers who disclose information in the public interest in prescribed circumstances to prescribed persons.

Details of the complaints dealt with during the period of this report are set out below.

New Complaints	Complaints carried over from 2016/17	Cases Concluded	Cases Continuing
8	1	5	4

The number of complaints recorded is slightly higher than in the previous year but continues to be consistent with those received by other local authorities.

When considering the number of complaints made under the policy, it is necessary to keep in mind that there is often some overlap with matters relating to grievance, disciplinary matters and dignity at work.

The Committee reviewed the Whistleblowing Policy during the period covered by this report and made changes which reflected the experience of its operation during the year.

7. CODE OF CONDUCT COMPLIANCE BY TOWN AND COMMUNITY COUNCILS

The committee again received a report regarding the extent to which Town and Community Councils within the County are complying with the Code of Conduct. The report contained data relating to:

- Code complaints
- Dispensation applications
- Declarations of interest
- Code training

No particular trends or patterns could be discerned from the data and there is no obvious correlation between whether a particular Council provides Code training to its members and the number of Code complaints being made.

8. OTHER ACTIVITIES

In addition to the above activities the Committee also:

- Received and considered the Annual Report of the Public Services Ombudsman for Wales
- Received and considered case decisions of the Adjudication Panel for Wales
- Received and considered case decisions made by other Standards Committees in Wales
- Received and considered the Code of Conduct casebook published by the Ombudsman

Where appropriate the Committee has identified points of learning and best practice and has taken them into account in their own decision making and included them in the training referred to in paragraph 5 above.

9. CONCLUSION

The committee had a busy year and we are grateful for the help and support given to us by the council's legal department. We have been much encouraged by the generally good levels of compliance with the Code of Conduct exhibited by Councillors across the County and very much hope this will continue.

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

**CYFARFOD Y CYNGOR –
9^{fed} Ionawr 2019**

Y PWNC: Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, 2019/20

Y Pwrpas:

Diben yr adroddiad hwn yw gofyn am fabwysiadu'n ffurfiol Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (a gyflwynwyd yn lle Budd-dal y Dreth Gyngor ym mis Ebrill 2013) am 2019/20.

YR ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:

Argymhellir bod y Cyngor yn gwneud fel a ganlyn ar gyfer 2019/20:

1. Mabwysiadu'n ffurfiol Gynllun safonol Cymru Gyfan ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a ddarperir yn
 - a. Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013, a
 - b. Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2014
2. Gweithredu'r ffigurau uwchraddio blynyddol (a ddefnyddir wrth gyfrifo hawl) a'r mân ddiwygiadau technegol eraill sydd wedi'u cynnwys yn Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2018 a fydd yn dod i rym Ionawr 2019.
a hefyd,
3. Parhau i arfer ei ddisgresiwn o ran elfennau disgrifiol cyfyngedig y cynllun rhagnodedig, fel y'u hamlinellir yn y Crynodeb Gweithredol.

Y RHESYMAU:

- a) Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio rheoliadau sy'n cadw Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, 2013/14 (gyda diwygiadau cyfyngedig) am 2014/15 a'r blynyddoedd dilynol.
- b) Mae rhwymedigaeth ar awdurdodau i (ail)fabwysiadu cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn ffurfiol erbyn 31^{ain} Ionawr bob blwyddyn neu bydd y "Cynllun Diofyn" yn weithredol sy'n golygu na fydd y Cyngor yn gallu arfer ei ddisgresiwn o ran yr elfennau disgrifiol cyfyngedig yn y cynllun rhagnodedig.
- c) Os yw'r Cyngor yn dymuno arfer ei bwerau o ran y meysydd disgrifiwn cyfyngedig sydd ar gael iddo, mae'n ofynnol iddo wneud hynny fel rhan o'r broses mabwysiadu cynllun ffurfiol.

Angen i'r Bwrdd Gweithredol wneud penderfyniad Angen i'r Cyngor wneud penderfyniad	Amherthnasol OES	
Y Gyfarwyddiaeth: Y Gwasanaethau Corfforaethol <u>Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol:</u> Y Cynghorydd David Jenkins <u>Enw Pennaeth y Gwasanaeth:</u> Helen L Pugh <u>Awdur yr Adroddiad:</u> Ann Thomas	Swyddi: Pennaeth Refeniw a Chydymffurfio Ariannol Rheolwr Budd-daliadu a Threth y Cyngor	Rhifau ffôn / Cyfeiriadau e-bost: HLPugh@sirgar.gov.uk 01267 246223 AnThomas@sirgar.gov.uk 01554 742126

EXECUTIVE SUMMARY

Council – 9th January 2019

Council Tax Reduction Scheme

1. As part of the Welfare Reforms introduced in recent years the former Council Tax Benefit scheme (CTB) was abolished with effect from April 2013. In its place is a localised Council Tax Reduction (CTR) scheme which in Wales has been devolved to Welsh Government, although with significantly less funding than the cost of the former CTB scheme.
2. The standard scheme introduced by Welsh Government for 2013/14 and (with minor amendments) subsequent years, is a uniform all-Wales scheme, albeit with limited areas of local discretion available to authorities.
3. Despite being an all-Wales scheme, individual Councils are required by the Prescribed Requirements Regulations to formally adopt a Council Tax Reduction Scheme by 31st January each year.
4. The limited areas of local discretion, and the policy adopted by Council in respect of those discretions, are shown below for information. There is no recommendation for change:

Discretion: to disregard part or the whole amount of War Disablement pensions and War Widows Pensions when calculating income.

Policy: The Council exercises its discretion and fully disregards War Disablement pensions, War Widows Pensions and analogous payments, when calculating income for the purposes of assessing entitlement to Council Tax Reduction.

Discretion: The ability to increase the standard extended payment period of 4 weeks given to people after they return to work, when they have been in receipt of a relevant qualifying benefit.

Policy: The Council does not exercise its discretion in relation to extended payments and therefore continues to adopt the 4 week period within the standard scheme.

Discretion: The ability to backdate the application of Council Tax Support awards for working age and/or pension age, customers beyond a standard period of 3 months prior to the claim.

Policy: The Council does not exercise its discretion in relation to backdating applications and therefore continues to adopt the 3 month maximum period within the standard scheme.

5. Apart from the normal annual up-rating of certain financial figures used for assessing individual entitlement and some technical adjustments (as is being provided for in ***The Council Tax Reduction Schemes (Prescribed Requirements and Default Scheme) (Wales) (Amendment) Regulations 2019***) the scheme will be materially unchanged for 2019/20.

DETAILED REPORT ATTACHED?	Yes
----------------------------------	------------

IMPLICATIONS

I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report :

Signed: C Moore Director of Corporate Services

Policy, Crime & Disorder and Equalities	Legal	Finance	ICT	Risk Management Issues	Staffing Implications	Physical Assets
YES	YES	YES	NONE	NONE	NONE	NONE

1. Policy, Crime & Disorder and Equalities

